

Talwch wrth y dollfa

“... ni all cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw, ac ni all llygredigaeth etifeddu anllygredigaeth.” (adn. 50)

Beth am ddarllen 1 Corinthiaid 15:35–58 ac yna myfyrio

Ni all yr un drafodaeth ar y nefoedd fod yn gyflawn heb i ni ystyried sut y cawn fynedfa i'r ddinas dragwyddol. Cyfrwng ein trosglwyddiad yw ein marwolaeth ni. At hyn yr ydym yn awr am droi ein sylw.

Yn syth wedi fy nhröedigaeth, a minnau yn fy ardeggau, byddwn yn arfer meddwl, “O, na fyddai'n braf cael gadael y byd hwn. Duw yn fy nghymryd a'm rhoi yn y nefoedd heb yr angenrheidrwydd o orfod profi marwolaeth.” Yn anffodus, mae pechod wedi effeithio ar y bywyd dynol i'r fath raddau fel bod ein cyrff bellach yn llygredig, ac o ganlyniad yn gorfod cael eu gadael y tu yma i ddrws angau. Yn ôl ein testun heddiw, ni all cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw. Mae marwolaeth wedi ei disgrifio droeon fel y dollfa. Wrth y dollfa, rhaid talu. Mae'r corff yr ydym yn byw ynddo yn un o'r taliadau yna sydd yn rhaid eu gwneud. Mae'n corff yn perthyn i'r ddaear. Yr ydym yn byw yma mewn byd materol, a'r unig ffordd y medrwn gysylltu â'n hamgylchfyd yw trwy'r materol. Ond byd ysbrydol yw y nefoedd, ac felly, rhaid gadael y ffyrdd yma ar ôl. Gadewch i'r corff ddychwelyd i'r ddaear o ble y daeth. Mae wedi cyflawni ei waith.

Gofynnwyd unwaith i William James, seicolegydd enwog, oedd hefyd yn athronydd, “Wyt ti'n credu mewn anfeidroldeb personol?” “Wrth gwrs, fy mod i,” meddai, “ac yn credu fwyfwy wrth i mi heneiddio.” “Pam?” gofynnwyd eto. “Oherwydd,” meddai, “rwyf yn paratoi i fyw.” Roedd y bywyd oedd o'i fewn yn mynnu ymwithio ei ffordd i'r wyneb. Am y rheswm yma, nid oedd ganddo'r un anhawster ynglŷn â thalu'r doll. Roedd y taliad yma yn agor y ffordd i fywyd iddo, y bywyd real.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Gen. 3:16–19; Salm 104:29; Preg. 3:19–21; Heb. 10:19–21

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ddywedodd Duw wrth Adda?
2. Sut mae yr Hebreaid yn ateb cwestiwn y Pregethwr?

Gweddi

O Dad, cynorthwya fi i weld marwolaeth mewn persbectif iawn. Dyma'r funud pan fo'r bywyd sydd o'm mewn yn ymwithio allan o'i amgylchfyd daearol ac yn cael mynedfa i fywyd tragwyddol. Bellach, yr wyf am fyw fel un sydd yn anfeidrol. Yn enw Iesu Grist. Amen.